PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

DYDD LLUN, 13 GORFFENNAF 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Bridgeman, Merry, Huw Thomas a/ac Williams |

8 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

9 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

10 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*“Cyflawni swyddogaethau’r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor”.*

11 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth fel cofnod cywir.

12 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau’r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i’w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y’i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y’i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy’n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai’r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

13 : PENODI CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - I DDILYN

Cafodd y Pwyllgor Penodiadau ei ailgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau’r Ganolfan Asesu. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Ymgeiswyr 4 a 18 wedi tynnu'n ôl cyn y Broses Asesu. Roedd gan y Pwyllgor 6 Adroddiad Asesu i'w hadolygu.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor gais gwreiddiol pob ymgeisydd, sut sgoriodd pob ymgeisydd yn erbyn cymwyseddau gofynnol y swydd a’r asesiad

ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn trafod cryfderau a sgiliau'r ymgeisydd. Ystyriodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno dau ymgeisydd am gyfweliad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau pwnc cyflwyno gan osod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD:

1 Gwahodd ymgeiswyr 13, 16 a 17 i gyfweliad.

2 I roi gwybod i'r ymgeiswyr beth fydd testun y cyflwyniad ac y caiff uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw; a

llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

14 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Llun 20 Gorffennaf 2020 am 9.00am.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.00 pm